



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Casglu Deunyddiau Gwastraff Ar Wahân i'w Hailgylchu – Cod Ymarfer Cymru

Tachwedd 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Casglu Deunyddiau Gwastraff Ar Wahân i'w Hailgylchu – Cod Ymarfer Cymru

Mae'r cod ymarfer yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu yng Nghymru ar gyfer deunyddiau gwastraff ailgylchadwy o eiddo annomestig.

Mae'r gofynion gwahanu wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (fel y'i diwygiwyd¹).

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 45AB(4)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Cynnwys

1. Trosolwg cryno	4
2. Cyflwyniad	5
3. Yr hierarchaeth wastraff.....	6
4. Ailgylchu o ansawdd uchel	6
5. 1. Beth yw'r gofynion gwahanu?	7
6. 1. Oes rheidwydd arnaf?	9
Eiddo annomestig	9
Trinwyr gwastraff	12
7. Gofynion cyfreithiol atodol eraill.....	13
Eitemau gwastraff sy'n beryglus	14
Eitemau gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs)	15
Gwastraff bwyd sy'n sgil-gynhyrchion anifeiliaid	15
8. Eich rhwymedigaethau fel meddiannydd eiddo annomestig	15
9. 1. Eich rhwymedigaethau fel rhywun sy'n casglu, derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff a reolir yng Nghymru	19
10. 2. Geirfa.....	22
Atodiad 1 – Yr is-ffracsiynau papur a cherdyn y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd.....	28
Atodiad 2 – Yr is-ffracsiynau plastig, metel a charton y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd.....	29
Atodiad 3 – Yr is-ffracsiynau gwyrdd y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd	31
Atodiad 4 – Yr is-ffracsiynau gwastraff bwyd y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd.....	32

¹Ymhlith y diwygiadau mae'r rhai a wnaed gan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012, Rheoliadau Diwygio Gwastraff (Economi Gylchol) (2020) a Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) Cymru 2023

Atodiad 5 – Yr is-ffracsiynau tecstilau heb eu gwerthu y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd.....	33
Atodiad 6 – Yr is-ffracsiynau WEEE bach heb ei werthu y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd.....	34

DRAFFET

1. Trosolwg cryno

Mae'r cod ymarfer ("y cod") yn nodi canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a roddir ar y canlynol:

- i) meddianwyr eiddo annomestig (gan gynnwys busnesau, y sector cyhoeddus ac elusennau) i gyflwyno deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodedig i'w casglu mewn ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân;
- ii) y rhai sy'n casglu, neu'n trefnu i gasglu, gwastraff i'w gasglu, neu'n trefnu i gasglu, y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân; a
- iii) y rhai sy'n casglu, derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff i beidio â chymysgu'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a gesglir ar wahân gydag unrhyw ffrwd wastraff ailgylchadwy arall neu gyda mathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill.

Mae angen gwahanu deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodedig, gan gynnwys is-ffracsiynau, i'w casglu ar wahân, eu casglu ar wahân, a'u cadw ar wahân ar ôl eu casglu, ac mae'n rhaid gwneud hynny yn y chwe ffrwd gwastraff ailgylchadwy ar wahân canlynol, yn y man lleiaf, o 1 Hydref 2023:

- i) bwyd a gynhyrchir gan eiddo sy'n cynhyrchu 5kg a mwy o wastraff bwyd yr wythnos;
- ii) papur a cherdyn;
- iii) gwydr;
- iv) metel, plastig, a chartonau a phe cynnu cyfansawdd ffeibr-plastig eraill o gyfansoddiad tebyg;
- v) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (sWEEE) bach heb eu gwerthu; a
- vi) tecstilau heb eu gwerthu.

Cyfeirir at y dyletswyddau hyn ar y cyd fel y 'gofynion gwahanu'.

Yn ogystal, mae gwaharddiadau ategol ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd o eiddo annomestig, a gwaharddiadau ar ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân penodedig i yn mynd i weithfeydd llosgi a safleoedd tirlenwi.

Mae methu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu yn drosedd heb unrhyw derfyn uchaf ar bŵer y llysoedd i ddirwyo. Gellir rhoi sancsiwn sifil am fethu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu, yn lle erlyn.

Mae'r cod yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn unrhyw achosion cyfreithiol ac mae'n rhaid i lys ei ystyried wrth benderfynu ar unrhyw gwestiwn y mae'n ymddangos i'r llys ei fod yn berthnasol iddo.

Y rheoleiddiwr ar gyfer y gofynion gwahanu yw Cyfoeth Naturiol Cymru.

2. Cyflwyniad

Mae'r cod yn nodi canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu a osodwyd yn Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (fel y'i diwygiwyd²), y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "y Rheoliadau". Cyhoeddir y cod o dan adran 45AB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â chasglu gwastraff ar wahân o dan adran 45AA o'r Ddeddf honno.

Cyfeirir hefyd at y darlun deddfwriaethol ehangach a'r gofynion cyfreithiol ategol cyfatebol ar gyfer y rhai sy'n cynhyrchu a rheoli gwastraff a reolir, er enghraifft y gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd, gwaharddiadau llosgi a safleoedd tirlenwi, y ddyletswydd gofal a'r hierarchaeth wastraff. Mae hyn er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth o rwymedigaethau cyfreithiol ehangach.

Mae'r Rheoliadau'n gweithredu nifer o gamau i gynyddu ansawdd a lefel yr ailgylchu sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Economi Gylchol Llywodraeth Cymru, '*Mwy Nag Ailgylchu, Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti*'³ ac maent yn adlewyrchu dyletswyddau cyfreithiol ehangach sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru a nodir mewn rhannau eraill o'r Rheoliadau. Yn benodol, mae'r gofynion gwahanu'n ymwneud â dyletswydd Llywodraeth Cymru a nodir yn y Rheoliadau, o ran cynlluniau rheoli gwastraff, i gymryd camau i hyrwyddo ailgylchu o ansawdd uchel gan gynnwys sefydlu casgliadau ar wahân o wastraff.

Mae'r gofynion gwahanu yn y Rheoliadau yn gofyn am fwy o ffocws ar y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu, gan alluogi cyfleoedd i atal gwastraff. Maent yn sicrhau hefyd lefelau uchel o ailgylchu o ansawdd uchel a gostyngiad yn y gwastraff sy'n cael ei anfon i gael ei losgi ac i safleoedd tirlenwi. Yn gyffredinol, bydd hyn yn helpu i gael y cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r nodau llesiant (gan gynnwys canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol) o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn benodol, bydd hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at leihau allyriadau carbon, mynd i'r afael â'r dirywiad byd-eang mewn bioamrywiaeth, sicrhau'r defnydd effeithlon o adnoddau, helpu gweithgynhyrchwyr Cymru i fod yn fwy gwydn o ran sicrhau deunyddiau crai, a lleihau ôl-troed amgylcheddol byd-eang Cymru. Mae strategaeth Mwy Nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru yn nodi pwysigrwydd yr economi gylchol a defnyddio adnoddau am gyn hired â phosibl.

Mae'r cod yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn unrhyw achosion cyfreithiol ac mae'n rhaid i lys ei ystyried wrth benderfynu ar unrhyw gwestiwn y mae'n ymddangos i'r llys ei fod yn berthnasol iddo.

Y rheoleiddiwr ar gyfer y gofynion gwahanu yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru - y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r eirfa yn adran 10 yn rhoi esboniad o'r termau technegol a ddefnyddir yn y cod.

² Ymhlith y diwygiadau mae'r rhai a wnaed gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012, Rheoliadau Diwygio Gwastraff (Economi Gylchol) (2020) a Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) Cymru 2023

³ <https://llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu>

3. Yr hierarchaeth wastraff

Mae'r Rheoliadau'n cynnwys gofyniad ar unrhyw sefydliad neu ymgymerydd sy'n mewnfario, yn cynhyrchu, yn casglu, yn cludo, yn adfer neu'n gwaredu gwastraff, neu sydd â rheolaeth o wastraff fel deliwr neu frocer, i gymryd pob mesur o'r fath fel sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau i gymhwyso'r hierarchaeth wastraff ganlydol fel blaenoriaeth pan fydd gwastraff yn cael ei drosglwyddo i berson arall:

- (a) atal;
- (b) paratoi ar gyfer aildddefnyddio;
- (c) ailgylchu;
- (d) math arall o adfer (er enghraifft, llosgi gan adfer ynni);
- (e) gwaredu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gymhwyso'r hierarchaeth wastraff y mae'n rhaid i unrhyw sefydliad neu ymgymerydd roi sylw iddynt wrth fewnfario, cynhyrchu, casglu, cludo, adfer neu daflu gwastraff, neu pan fydd gan werthwr neu frocer reolaeth ar wastraff.⁴

4. Ailgylchu o ansawdd uchel

Gall cyflenwi deunyddiau eilaidd o ansawdd uchel sy'n deillio o ailgylchu gwastraff gynnig cyflenwad gwerthfawr, gwydn a chost-effeithiol o ddeunyddiau crai i ddiwydiannau Cymru, ac mae'n fwy tebygol o arwain at ailgylchu dolen gaeedig⁵ sydd â gwell canlyniadau amgylcheddol nag ailgylchu dolen agored⁶ ar y cyfan.

Lle caiff deunyddiau gwastraff eu casglu mewn ffrydiau cymysg neu 'ailgylchadwy cymysg' (y cyfeirir atynt hefyd fel ffrydiau 'ailgylchu cymysg sych' (DMR)), gallant yn aml groes-halogi ei gilydd, gan leihau ansawdd y deunydd wedi'i ailgylchu a'r cynnyrch terfynol sydd wedi'i ailgylchu. Ymhlith enghreifftiau mae cynnwys cynwysyddion bwyd a diodydd yn difwyno/baeddu papur a chardbord gwastraff, a darnau gwydr o boteli a jariau yn cael eu dal mewn papur a chardbord gwastraff, gan ddifrodi'r offer a ddefnyddir i ailgylchu'r deunyddiau perthnasol. Byddai'r rhain yn enghreifftiau o ailgylchu o ansawdd isel. Weithiau gall yr halogiad fod mor ddifrifol fel bod yn rhaid gwrthod y llwyth a'i anfon i gael ei losgi neu i safle tirlenwi.

Mae cynhyrchu deunydd wedi'i ailgylchu o ansawdd gwael yn golygu atebion ailgylchu terfynol sydd â gwerth is nad ydynt ond yn oedi'r broses o waredu'r deunydd neu gall arwain at effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol niweidiol yng Nghymru, rhannau eraill o'r DU neu dramor. Mae 'Mwy nag Ailgylchu' yn cynnwys amcan hefyd i atal allforio gwastraff problemus o Gymru; mae ailgylchu o ansawdd uchel yn ffordd o gyflawni hyn. Mae casglu ar wahân yn sicrhau y gellir casglu ailgylchu o ansawdd uchel.

⁴ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/arweiniad-yngghylch-gweithredur-hierarchiaeth-gwastraff.pdf>

⁵Gweler yr Eirfa.

⁶ Gweler yr Eirfa.

Gall casglu plastig, metel a chartonau gwastraff ailgylchadwy a phecynnu cyfansawdd ffeibr-plastig arall o gyfansoddiad tebyg gyda'i gilydd mewn un ffrwd hwyluso ailgylchu o ansawdd uchel oherwydd y gallu i wahanu'r deunyddiau gwastraff oddi wrth ei gilydd i raddau digon uwch.

Mae angen i'r gadwyn gyflenwi gwastraff, o'r cynhyrchydd hyd at ddylunio a gweithredu systemau rheoli gwastraff, gydweithio i gynyddu cymaint â phosib y ddarpariaeth o ddeunydd gwastraff o ansawdd uchel sy'n gallu bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan y rhai sy'n ailbroesu deunyddiau mewn systemau dolen gaeedig o ansawdd uchel. Mae rhai safonau ansawdd ar gyfer derbynoldeb deunyddiau gwastraff i'w hailgylchu, a lle maent yn bodoli, mae angen bodloni'r rhain er mwyn sicrhau bod y deunydd gwastraff yn bodloni'r safon o ran ansawdd uchel.

Dylid darllen y cod ar y cyd â'r Arweiniad Hierarchaeth Wastraff (gweler adran 3) sy'n rhoi rhagor o fanylion am amrywiaeth o ddeunyddiau ailgylchadwy cyffredin a'r sylfaen dystiolaeth. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio'r canlyniadau blaenoriaeth ar gyfer ailgylchu yng Nghymru, yr hyn a olygir gan ailgylchu o ansawdd uchel mewn perthynas ag amrywiaeth o ffrydiau gwastraff ailgylchadwy cyffredin, ac yn darparu arweiniad ymarferol ar sut gellir ei gyflawni.

5. 1. Beth yw'r gofynion gwahanu?

Mae dyletswydd ar feddianwyr eiddo annomestig, gan gynnwys busnesau, y sector cyhoeddus ac elusennau, pan fyddant yn cyflwyno gwastraff i'w gasglu, i sicrhau bod pob math o ddeunydd gwastraff ailgylchadwy penodedig yn cael ei gyflwyno i'w gasglu mewn ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân, ac ar wahân i fathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill. Cyfeirir at hyn o hyn ymlaen fel 'gofynion gwahanu'r meddiannydd'.

Mae gan y rhai sy'n casglu, neu sy'n trefnu ar gyfer casglu, un neu ragor o'r deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodedig, ddyletswydd i gasglu, neu i drefnu ar gyfer casglu, y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy sydd wedi'u gwahanu ar wahân (h.y. i beidio â chymysgu ffrwd ag unrhyw ffrwd wastraff arall) ac ar wahân i fathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill. Cyfeirir at hyn o hyn ymlaen fel 'gofynion gwahanu'r casglwr'.

Ni ddylai'r rhai sy'n casglu, derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff gymysgu'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a gasglwyd ar wahân gydag unrhyw ffrwd wastraff ailgylchadwy arall neu gyda mathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill. Cyfeirir at hyn o hyn ymlaen fel 'gofynion gwahanu'r triniwr gwastraff'.

Mae'r naw deunydd gwastraff ailgylchadwy penodedig y mae angen eu gwahanu i'w casglu, eu casglu ar wahân, a'u cadw ar wahân ar ôl eu casglu, mewn chwe ffrwd wastraff ailgylchadwy ar wahân, yn y man lleiaf, fel a ganlyn:

- i) gwastraff bwyd a gynhyrchir gan eiddo sy'n cynhyrchu 5kg a mwy o wastraff bwyd yr wythnos;
- ii) papur a cherdyn;
- iii) gwydr;

- iv) metel, plastig, a chartonau a phecynnu cyfansawdd ffeibr-plastig eraill o gyfansoddiad tebyg (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen ar y cyd fel 'cartonau');
- v) cyfarpar trydanol ac electronig bach (WEEE) heb ei werthu; a
- vi) tecstilau heb eu gwerthu.

Defnyddir y deunyddiau a ddiffinnir uchod mewn amrywiaeth eang o fathau o gynhyrchion a phecynnau ('is-ffracsiynau' - gweler yr eirfa), ac nid yw pob un ohonynt yr un fath o ran eu natur a'u cyfansoddiad. Cydnabyddir nad oes modd ailgylchu rhai is-ffracsiynau o'r deunyddiau gwastraff yn hawdd ar hyn o bryd. Er enghraifft, nid yw'n ymarferol ailgylchu rhai mathau o wastraff plastig (e.e. ffilm blastig hyblyg) a mathau o wydr (e.e. Pyrex) ledled y wlad ar hyn o bryd (yn enwedig o'u cymysgu ag is-ffracsiynau eraill o'r un deunydd gwastraff). Mewn gwirionedd, gall cynnwys yr is-ffracsiynau gwastraff hyn sy'n anodd eu hailgylchu yn y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân, ar y gwaethaf, atal y ffrwd wastraff gyfan rhag cael ei hailgylchu oherwydd yr effeithiau halogi, neu yn y man lleiaf, gall arwain at ailgylchu dolen agored o ansawdd isel. Felly ni ddisgwylir bod meddianwyr yn gwahanu'r rhain o sbwriel gweddilliol, er eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny lle mae canolfannau ailgylchu lleol yn bodoli.

Mae atodiadau 1-6 y cod ac Atodlen 1A i'r Rheoliadau yn nodi isafswm is-ffracsiynau pob deunydd gwastraff y mae'n rhaid eu gwahanu ar gyfer ailgylchu yn y cynhwysydd ffrwd wastraff penodedig. Gan amlaf, dyma'r is-ffracsiynau nodweddiadol a geir yn aml mewn gwastraff cartref, ac sy'n cael eu casglu o gartrefi ledled Cymru.

Y rhwymedigaethau uchod, ar y cyd, yw'r "gofynion gwahanu".

Yr unig eithriadau o'r gofynion gwahanu yw:

- i) unrhyw eitemau gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs) - mae'n rhaid dinistrio'r POPs yn y gwastraff os ydynt yn uwch na'r terfynau crynodiad rhagnodedig⁷;
- ii) unrhyw eitemau gwastraff sy'n wastraff peryglus neu glinigol lle nad yw ailgylchu'n weithgaredd addas i'w trin;
- iii) gwastraff arlwygo rhyngwladol - mae hwn wedi'i ddynodi fel Sgil-gynnyrch Anifeiliaid Categori 1 ac felly mae angen ei reoli gan arbenigwyr;
- iv) unrhyw ofynion cyfreithiol eraill i unrhyw rai o'r deunyddiau gwastraff penodedig gael eu dinistrio er mwyn diogelu cyfrinachedd, data personol, diogelwch neu unrhyw resymau eraill sy'n dod o dan ddeddfwriaeth.

Mae methu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu yn drosedd heb unrhyw derfyn uchaf ar bŵer y llysoedd i ddirwyo. Gellir rhoi sancsiwn sifil am fethu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu, yn lle erlyn.

⁷ <https://www.gov.uk/guidance/dispose-of-waste-containing-persistent-organic-pollutants-pops#:~:text=in%20the%20waste-,Reusing%20waste%20containing%20POPs,and%20waste%20controls%20will%20apply.>

Mae'r cod yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol ac mae'n rhaid i lys ei ystyried wrth benderfynu ar unrhyw gwestiwn y mae'n ymddangos i'r llys ei fod yn berthnasol iddo.

6. 1. Oes rheidrwydd arnaf?

Eiddo annomestig

Mae'r gofynion gwahanu yn berthnasol i wastraff o eiddo annomestig, gan gynnwys y rhai hynny a feddiannir gan gyrff cyhoeddus ac elusennau. Mae eiddo annomestig yn cynnwys unrhyw eiddo ac eithrio eiddo domestig neu garafán y mae rhywun yn byw ynddo fel cartref.

Mae eiddo sy'n cael eu hystyried yn eiddo annomestig at ddiben y Rheoliadau'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- i) eiddo amaethyddol - gan gynnwys ar gyfer garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, ffermio gwartheg godro, bridio a chadw da byw, tir pori, tir dolydd, tir helyg gwiaill (tyfu helyg), gerddi marchnad a thiroedd planhigfeydd;
- ii) bariau a thafarndai;
- iii) gwely a brecwast, gwestai;
- iv) gorsafoedd bws, gorsafoedd rheilffordd, porthladdoedd môr, meysydd awyr, meysydd hofrenyddion;
- v) meysydd gwerysyla a pharciau carafanau;
- vi) carafanau: i) a ddefnyddir mewn busnes ar gyfer darparu llety hunanarlwyo, neu (ii) na chaniateir eu defnyddio i fod yn gartref drwy gydol y flwyddyn yn rhinwedd trwydded neu ganiatâd cynllunio;
- vii) cartrefi gofal a nyrsio;
- viii) safleoedd adeiladu (heb gynnwys gwaith atgyweirio neu ymestyn ar eiddo domestig presennol);
- ix) sefydliadau addysgol fe prifysgolion, colegau ac ysgolion;
- x) lleoliadau adloniant a chwaraeon, gan gynnwys canolfannau hamdden
- xi) ffatrioedd;
- xii) garejis ar gyfer gwasanaethu a thrwsio cerbydau;
- xiii) canolfannau garddio;
- xiv) adeiladau treftadaeth;
- xv) llety gwyliau, e.e. llety gwyliau hunanddarpar, parciau gwyliau/canolfannau gwyliau;
- xvi) ysbytai;
- xvii) llyfrgelloedd ac amgueddfeydd;
- xviii) eiddo trwyddedig o fewn ystyr Deddf Trwyddedu 2003
- xix) swyddfeydd;

- xx) fferyllfeydd, meddygfeydd, deintyddfeydd a chyfleusterau gofal sylfaenol eraill;
- xxi) mannau addoli;
- xxi) carchardai;
- xxiii) cartrefi preswyl;
- xxiv) bwytai a chaffis;
- xxv) gorsafoedd gwasanaethau a gorsafoedd petrol;
- xxvi) siopau a chanolfannau siopa;
- xxvi) meysydd sioe;
- xxviii) lleoliadau ar gyfer marchnadoedd awyr agored;
- xxix) lleoliadau ar gyfer digwyddiadau dros dro fel gwyliau;
- xx) warysau; a
- xxi) gweithdai.

Ni fwriedir i'r rhestr o eiddo annomestig y cyfeirir ati uchod fod yn gynhwysfawr. Wrth ystyried a yw eiddo'n dod o fewn cwrmpas y Rheoliadau gall y ffactorau canlynol fod o gymorth:

- a oes ardrethi busnes yn daladwy mewn perthynas â'r eiddo? Fel arfer byddai talu ardrethi busnes yn arwydd bod yr eiddo'n annomestig;
- a yw'r defnydd cyfredol o'r eiddo, at ddibenion cynllunio, yn ddefnydd ar wahân i ddsbarthiadau defnydd C3 (Tai annedd) a C4 (Tai amlfeddiannaeth)? Fel arfer byddai defnyddio'r eiddo yn unol â chaniatâd cynllunio pendant sy'n nodi defnydd ar wahân i ddsbarthiadau defnydd C3 neu C4 yn arwydd o'r ffaith bod yr eiddo'n annomestig;
- a yw'r Dreth Gyngor yn daladwy mewn perthynas â'r eiddo? Fel arfer, byddai hyn yn arwydd o'r ffaith bod yr eiddo'n un domestig ac felly y tu allan i gwmpas y Rheoliadau.

Mae fflatiau preswyl, hyd yn oed pan fo'r casgliad gwastraff yn cael ei reoli gan gwmni rheoli (gan gynnwys llety myfyrwyr), yn cael eu heithrio o'r gofynion gwahanu.

Ar gyfer eiddo defnydd cymysg, mae'r gofynion gwahanu yn berthnasol dim ond i'r gwastraff a gynhyrchir gan yr elfen annomestig. Lle mae gan gyfaddiladau gyfleusterau integredig cymunedol fel campfeydd, golchdai, a mannau cydweithio etc, mae'r gofynion gwahanu yn berthnasol i'r cydrannau annomestig yn unig. Os yw unigolyn yn rhedeg busnes, neu'n cynnal rhyw fath o weithgaredd busnes (e.e. gwneud eitemau i'w gwerthu ar-lein, neu'n warchodwr plant) o'i gartref, ni fyddai'n yn cael ei ystyried yn eiddo annomestig ac ni fyddai'n cael ei ddal gan y gofynion gwahanu ar gyfer eiddo annomestig, ar yr amod mai prif ddefnydd yr eiddo yw fel annedd ddomestig.

Bwriedir i "eiddo" fod yn derm eang, heb ei gyfyngu i adeiladau; mae'n cael ei ddiffinio yn y Rheoliadau fel 'unrhyw le'. Felly gall gynnwys tir, parciau a mannau

agored lle mae gwastraff yn cael ei gynhyrchu, er enghraifft, gwastraff sy'n cael ei osod mewn biniau sbwriel tu allan gan ymwelwyr.

Meddianwyr eiddo annomestig

Mae'n rhaid i bob meddiannydd eiddo annomestig gydymffurfio â gofynion gwahanu'r meddiannydd.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y meddiannydd at ddibenion y Rheoliadau fydd y person sy'n cyflwyno gwastraff i'w gasglu o'r eiddo (boed gan awdurdod casglu gwastraff neu gan unrhyw berson arall).

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bwy fyddai'n fwyaf tebygol o gael ei ystyried yn feddiannydd at ddibenion gofynion gwahanu'r meddiannydd:

Senario	Meddiannydd
Parciau busnes, manwerthu neu letygarwch gydag unedau lluosog a threfniadau casglu gwastraff cymunedol	Deiliad pob uned unigol
Digwyddiadau fel gwyliau, cyngherddau a sioeau	Trefnydd y digwyddiad
Safleoedd adeiladu	Prif contractwr
Parciau carafanau dibreswyl a meysydd gwersylla	Perchennog/gweithredwr safle
Gwestai	Perchennog/gweithredwr
Llety gwyliau hunanarlwyo	Perchennog/gweithredwr
Bws, bws moethus, gorsafoedd trên	Perchennog/gweithredwr
Arlwywyr contract sy'n gweithredu o eiddo trydydd parti (e.e. ysgol)	Perchennog/gweithredwr

Ar gyfer eiddo ym meddiant busnesau lluosog (e.e. parc neu gyfaddilad busnes, manwerthu neu letygarwch) lle mae un contract ar gyfer casglu gwastraff a reolir gan y perchennog neu asiantaeth rheoli cyfleusterau, byddem yn disgwyl i'r cytundeb tenantiaeth gynnwys gofyniad i'r tenantiaid gydymffurfio â'r gofynion gwahanu. Meddianwyr unigol fydd â'r rhwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â gofynion gwahanu'r meddiannydd.

Caiff y meddiannydd, er enghraifft, fod yn berchen ar yr eiddo, neu ei brydlesu neu ei rentu, neu ei feddiannu dros dro gyda chaniatâd perchennog y tir. Byddai hyn yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon - e.e. digwyddiadau rhedeg, beicio neu nofio.

Mae rhanddirymiad dwy flynedd ar gyfer meddianwyr ysbytai; mae angen iddynt gydymffurfio â'r gofynion gwahanu o 1 Hydref 2025. 'Mae 'ysbytai' yn y cyd-destun hwn yn eiddo lle mae cleifion mewnol yn aros dros nos ar wardiau, a'r rhai sydd â theatrau llawfeddygaeth - ac sydd naill ai'n cael eu rhedeg gan y Bwrdd Iechyd neu gwmni preifat neu elusen.

Mae meddianwyr eiddo domestig neu garafanau preswyl sy'n gwaredu gwastraff cartref o'r eiddo hwnnw neu'r garafán honno wedi'u heithrio o ofynion gwahanu'r meddiannydd. Fodd bynnag, gall awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr o'r fath osod gwastraff cartref i'w gasglu mewn daliedyddion penodedig, yn unol â phwerau eraill yn y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd.

Casglwyr gwastraff

Mae gofynion gwahanu'r casglwr yn berthnasol i:

- i) awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru sy'n trefnu i gasglu gwastraff a reolir yn ei ardal o dan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd; a
- ii) person sy'n gweithredu mewn busnes sy'n casglu gwastraff a reolir o eiddo annomestig yng Nghymru.

Mae person yn gweithredu mewn busnes os yw'r person yn:

- (i) cynnal unrhyw fusnes neu ymgymeriad, boed er elw ai peidio; neu'n
- (ii) arfer unrhyw swyddogaethau o natur gyhoeddus.

Mae hyn yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) Awdurdodau Lleol, cwmnïau casglu gwastraff preifat ac elusennau sy'n casglu gwastraff o eiddo annomestig.

Mae sefydliad neu ymgymerydd sy'n casglu gwastraff o eiddo domestig yn ddarostyngedig i'r gofynion casglu ar wahân a osodwyd yn rheoliadau 13 a 14 o'r Rheoliadau. Mae'n rhaid iddo roi sylw i'r canllawiau statudol ar wahân a gyhoeddwyd o dan reoliad 15 i'r graddau y maent yn berthnasol i'r casgliad ar wahân o wastraff o eiddo domestig⁸.

Trinwyr gwastraff

Mae gofynion gwahanu'r triniwr gwastraff yn berthnasol i awdurdod casglu gwastraff ac i berson sy'n gweithredu mewn busnes sy'n derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff a reolir yng Nghymru.

Mae person yn gweithredu mewn busnes os yw'r person yn:

- (i) cynnal unrhyw fusnes neu ymgymeriad, boed er elw neu beidio, neu'n
- (ii) arfer unrhyw swyddogaethau o natur gyhoeddus.

Mae hyn yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) Awdurdodau Lleol, cwmnïau casglu gwastraff preifat, ac elusennau sy'n casglu gwastraff o eiddo annomestig.

Mae sefydliad neu ymgymerydd sy'n casglu gwastraff o eiddo domestig yn ddarostyngedig hefyd i'r gofynion casglu ar wahân a osodwyd yn rheoliad 14 o'r Rheoliadau. Mae'n rhaid iddo roi sylw i'r canllawiau statudol ar wahân a gyhoeddwyd

⁸ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/the-separate-collection-of-waste-paper-plastic-metal-and-glass.pdf>

o dan reoliad 15 i'r graddau y maent yn berthnasol i gasglu gwastraff o eiddo domestig ar wahân.

7. Gofynion cyfreithiol atodol eraill

Gwaharddiadau waredu i safleoedd tirlenwi a llosgi

Cafodd y deunyddiau gwastraff canlynol sy'n cael eu casglu ar wahân at ddiben paratoi i'w hailddefnyddio neu eu hailgylchu eu gwahardd o safleoedd tirlenwi⁹ a llosgi¹⁰ o fis Gorffennaf 2020:

- (i) papur;
- (ii) gwydr;
- (iii) metel;
- (iv) plastig.

O 1 Hydref 2023, mae'r deunyddiau gwastraff ychwanegol canlynol sy'n cael eu casglu ar wahân at ddiben paratoi i'w hailddefnyddio neu ei hailgylchu wedi eu gwahardd rhag cael eu gwaredu i safleoedd tirlenwi ac i'w llosgi, yn ogystal â'r rhai a nodwyd uchod:

- (i) cardbord;
- (ii) cartonau a phecynnu cyfansawdd ffeibr-plastig eraill o gyfansoddiad tebyg;
- (iii) bwyd;
- (iv) pob WEEE bach.

O 1 Hydref 2023, mae'r holl wastraff tecstilau sy'n cael ei gasglu ar wahân at ddiben paratoi i'w aildefnyddio neu ei ailgylchu wedi'i wahardd rhag cael ei waredu i safleoedd tirlenwi, yn ogystal â'r deunyddiau a gesglir ar wahân a nodwyd uchod.

Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw wastraff tecstilau sydd wedi'i wahanu na ellir ei aildefnyddio neu ei ailgylchu fynd i gael ei losgi gan adfer ynni, ac nid i safle tirlenwi.

Er nad yw'r rhwymedigaeth a geir yn y gofynion gwahanu yn berthnasol ond i WEEE bach heb ei werthu a thecstilau heb eu gwerthu, lle mae unrhyw fath o WEEE bach wedi'i wahanu'n wirfoddol at ddibenion casglu ar gyfer paratoi i'w aildefnyddio neu ei ailgylchu, gwaherddir llosgi'r eitemau hynny, a gwaherddir anfon WEEE bach a thecstilau wedi'u gwahanu i safleoedd tirlenwi.

O 1 Hydref 2023 mae pob pren gwastraff yn cael ei wahardd o safleoedd tirlenwi, nid dim ond pren sydd wedi cael ei roi ar wahân i'w gasglu.

⁹ Paragraff 5A, Atodlen 10, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

¹⁰ Paragraff 1, Rhan 4, Atodlen 9, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

Dyletswydd gofal

Mae'r gofynion gwahanu yn ategu gofynion dyletswydd gofal ar gyfer gwastraff. Mae'r ddeddfwriaeth dyletswydd gofal yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli gwastraff yn ddiogel i amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd yn creu dyletswydd gofal mewn perthynas ag unrhyw un sy'n cynhyrchu neu sy'n ymdrin â gwastraff a reolir, gan gynnwys i'w gadw'n ddiogel, sicrhau ei fod yn cael ei drin yn gyfrifol a dim ond yn cael ei roi i fusnesau a awdurdodwyd i'w gymryd. Mae cod ymarfer ar gyfer dyletswydd gofal sy'n berthnasol i unrhyw un sy'n cynhyrchu, cario, cadw, taflu, trin neu fewnforio gwastraff penodol neu sydd â rheolaeth dros wastraff penodol yng Nghymru neu Loegr. Cyhoeddir cod ymarfer dyletswydd gofal o dan adran 34(7) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd. Gellir ei gyrchu yma: <https://www.gov.uk/government/publications/waste-duty-of-care-code-of-practice>

Eitemau gwastraff sy'n beryglus

Yn gyffredinol, ystyrir gwastraff yn beryglus os ydyw (neu'r deunydd neu'r sylweddau y mae'n eu cynnwys) yn niweidiol i bobl neu'r amgylchedd. Mae enghreifftiau o wastraff peryglus yn cynnwys:

- asbestos;
- cemegion, fel hylif brêcs neu arlliw argraffu;
- batris;
- toddyddion;
- plaladdwyr;
- olew (ac eithrio olew bwytadwy), fel olew car;
- offer sy'n cynnwys sylweddau teneuo oson, fel oergelloedd;
- cynwysyddion gwastraff peryglus.

Gall rhai o'r deunyddiau gwastraff ailgylchadwy sydd wedi'u cynnwys yn y gofynion gwahanu fod yn wastraff peryglus ynddynt eu hunain, neu gallant fod wedi'u halogi â sylweddau peryglus, sy'n golygu bod yn rhaid eu trin fel gwastraff peryglus.

Mae gennych gyfrifoldebau o dan y ddyletswydd gofal ac mae'n rhaid i chi adnabod a dosbarthu eich gwastraff cyn i chi ei anfon i gael ei ailgylchu neu ei waredu. Mae hyn yn sicrhau eich bod chi neu unrhyw un sy'n trin eich gwastraff yn ei drin yn iawn.

Mae yna reolau arbennig ar gyfer trin gwastraff peryglus neu waredu gwastraff sydd â lefel uchel o lygryddion organig parhaus (POPs), ('gwastraff POPs') – gweler isod.

Caiff gwastraff peryglus ei reoleiddio o dan Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion ychwanegol mewn perthynas â gwastraff sy'n dangos priodweddau peryglus penodol. Gall unrhyw un o'r deunyddiau gwastraff sy'n cael eu cynnwys yn y Rheoliadau fod yn beryglus os ydynt yn cynnwys lefelau cemegion neu ddeunyddiau eraill sy'n achosi i'r gwastraff gael priodweddau peryglus. Mae canllawiau ar sut i ddosbarthu gwastraff a all

gynnwys priodweddau peryglus. <https://www.gov.uk/government/publications/waste-classification-technical-guidance>

Eitemau gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs)

Ni ellir ailgylchu deunydd gwastraff sy'n cynnwys POPs, mae'n rhaid dinistrio'r POPs. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid anfon gwastraff o'r fath i gael ei losgi, gan adfer ynni yn ddelfrydol. Mae'r canllawiau ar gael yma: <https://www.gov.uk/guidance/dispose-of-waste-containing-persistent-organic-pollutants-pops> Gall rhai deunyddiau sydd wedi'u gwahanu ar gyfer ailgylchu gynnwys sylweddau peryglus eraill (gan gynnwys POPs fel y'u disgrifir uchod), sy'n golygu y dylid eu trin neu eu dinistrio yn hytrach na'u hailgylchu hefyd.

Gwastraff bwyd sy'n sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014), sy'n gweithredu Rheoliadau a Ddargedwir (CE) 1069/2009 a (CE) 142/2011, yn gosod rheolaethau llym ar y ffordd y caiff sgil-gynhyrchion anifeiliaid eu rheoli. Mae Rheoliadau 2014 yn gwasanaethu i atal niwed i bobl ac anifeiliaid, yn arbennig mewn perthynas ag Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs), halogiad deuocsin, a chlefydau egsotig fel Clwy Clasurol y Moch a Chlwy'r Traed a'r Genau (nid yw'r ddau ohonynt yn bodoli yn y DU ac roedd yr achosion diwethaf yn 2000 yn achos Clwy Clasurol y Moch a 2001 achos Clwy'r Traed a'r Genau yn gysylltiedig â chynhyrchion anifeiliaid wedi'u mewnfario yn cael eu cynnwys yn y gadwyn bwyd anifeiliaid). Mae gan Rheoliadau 2014 gwmpas eang, sy'n cynnwys cynhyrchion anifeiliaid i gyd gan gynnwys cig, pysgod, llaeth ac wyau pan nad ydynt wedi'u bwriadu i gael eu bwyta gan bobl, gwastraff arlwygo a chynhyrchion eraill o darddiad anifeiliaid gan gynnwys crwyn, plu, gwllân, esgyrn, cyrn, a charnau. Mae Rheoliadau 2014 yn rheoli'r defnydd o sgil-gynhyrchion anifeiliaid fel, er enghraifft, bwyd anifeiliaid (gan gynnwys bwyd anifeiliaid anwes), gwrtaithe neu ar gyfer cynhyrchion technegol ac yn gosod rheolau ar gyfer eu trawsnewid drwy gompostio a bio-nwy a'u gwaredu drwy rendro a llosgi. Ni ellir bwydo gwastraff arlwygo, gan gynnwys sgrapiau cegin (ac mae hyn yn cynnwys ceginau llysieuol), i dda byw.

8. Eich rhwymedigaethau fel meddiannydd eiddo annomestig

Pa wastraff ydw i'n gyfrifol amdano ar yr eiddo rwy'n ei feddiannu?

Rydych yn gyfrifol am yr holl wastraff yr eiddo rydych yn ei feddiannu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wastraff a gynhyrchir gan eich staff, ymwelwyr a chontractwyr neu werthwyr sy'n gweithio ar yr eiddo.

Sut dylai fy ngwastraff gael ei gasglu?

Mae gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn y rhan fwyaf o eiddo annomestig yn dod o dan y disgrifiadau 'gwastraff masnachol' a 'gwastraff diwydiannol' a ddarperir yn Atodlen 1 i Reoliadau Gwastraff a Reolir 2012.¹¹ O'r herwydd, nid yw'n gymwys i

¹¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2012/811/contents/made>

gael ei gasglu na'i reoli am ddim gan Awdurdodau Lleol na'u hasiantau¹². Mae'n rhaid i chi felly sicrhau ei fod yn cael ei gasglu a'i reoli'n briodol (yn unol â'ch rhwymedigaethau dyletswydd gofal), a bydd yn rhaid i chi ysgwyddo'r gost angenrheidiol o wneud hynny – yn unol â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'.

Nid oes rhaid i chi gael contract gydag un endid casglu gwastraff i gasglu'r ystod lawn o ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân penodedig o'ch eiddo. Gall eich contractwr gwastraff neu frocer is-gontractio'r casgliad ar wahân o rai o'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân hyn, neu efallai y byddwch yn dymuno cael contractau ar wahân gyda mwy nag un endid casglu gwastraff. Mae hyn er mwyn eich galluogi i gael y trefniadau mwyaf buddiol yn ariannol ar gyfer casglu eich ffrydiau gwastraff ailgylchadwy.

Mae dyletswydd¹³ ar Awdurdodau Lleol, os bydd meddiannydd eiddo yn eu hardal yn gwneud cais iddynt gasglu gwastraff masnachol o'r eiddo, i drefnu i'r gwastraff gael ei gasglu. Bydd person sy'n gwneud cais i'w wastraff, ac eithrio gwastraff cartref, gael ei gasglu, yn gorfod talu tâl rhesymol am gasglu/gwaredu'r gwastraff i'r Awdurdod Lleol a drefnodd i'w gasglu; a dyletswydd yr awdurdod hwnnw fydd adennill y tâl, oni bai bod yr awdurdod o'r farn ei bod yn amhriodol gwneud hynny yn achos tâl mewn perthynas â gwastraff masnachol¹⁴.

Gallwch fynd â'ch gwastraff eich hun yn uniongyrchol i gyfleuster rheoli gwastraff sydd wedi'i awdurdodi i'w dderbyn cyn belled â'ch bod yn cydymffurfio â'r gofynion dyletswydd gofal a'ch bod wedi cofrestru â'r rheoleiddiwr fel cludydd gwastraff. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol naill ai'n gwahardd gwastraff masnachol neu ddiwydiannol rhag cael ei gludo i'w Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, neu gallant ei dderbyn a chodi tâl, fel y mae ganddynt yr hawl i wneud yn ôl y gyfraith.

Y gofynion gwahanu

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â gofynion gwahanu'r meddiannydd a gyflwynir yn Rheoliad 13 a 14 tra bod y gwastraff yn eich meddiant a phan fyddwch yn ei gyflwyno i'w gasglu, neu'n ei drosglwyddo i berson awdurdodedig neu'n ei gludo i gyfleuster awdurdodedig.

O 1 Hydref 2023, mae'n rhaid i chi gyflwyno'r naw deunydd gwastraff ailgylchadwy penodedig ar gyfer eu casglu ar wahân mewn o leiaf chwe ffrwd wastraff ailgylchadwy ar wahân a bennir yn adran 5.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cael, yn y man lleiaf, chwe chynhwysydd ar wahân os yw pob un o'r chwe ffrwd wastraff ailgylchadwy yn cael eu cynhyrchu ar yr eiddo. Gallwch eu gwahanu ymhellach, i fwy o ffrydiau o fewn y ffrydiau uchod, os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Mae angen cynhwysydd ar wahân (bin, bag, bocs neu fath arall o gynhwysydd) ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy penodedig ac mae'n rhaid i'r gwaith o'u trin wedyn fod yn ddigonol i'w cadw ar wahân drwy'r gadwyn reoli. Ni ellir gosod

¹²Nodir eithriadau i hyn yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Gwastraff a Reolir 2012

¹³ O dan adran 45(1)(b) Deddf Diogelu'r Amgylchedd

¹⁴ O dan adran 45(4) Deddf Diogelu'r Amgylchedd

sachau goroesi' ar gyfer un o'r ffrydiau penodedig neu ar gyfer is-ffracsiynau yn y cynhwysydd ar gyfer ffrwd wastraff ailgylchadwy benodedig wahanol. Felly, er enghraifft, ni ddylid gosod sach oroesi sy'n cynnwys plastig yn y cynhwysydd sy'n dal y ffrwd wydr, neu yn y cynhwysydd sy'n cynnwys y ffrwd papur a cherdyn. Gellir defnyddio sachau goroesi ar gyfer is-ffracsiynau o bob ffrwd ddeunydd, yn amodol ar gytundeb â'r casglwr sbwriel a phob rhan o'r gadwyn reoli. Er enghraifft, gellid gosod sach oroesi sy'n cynnwys cerdyn yn y cynhwysydd sy'n dal y ffrwd papur a cherdyn. Bydd eich contractwr rheoli sbwriel yn gallu eich cyngori.

Mae Atodiadau 1-6 y cod ac Atodlen 1A i'r Rheoliadau yn nodi mathau o is-ffracsiynau ar gyfer pob math o ddeunydd gwastraff ailgylchadwy y mae'n rhaid eu gwahanu ar gyfer ailgylchu mewn cynhwysydd ffrwd wastraff ailgylchadwy ar wahân. Bydd eich contractwr rheoli gwastraff yn gallu rhoi cyngor i weld a ellir gwahanu unrhyw is-ffracsiynau gwastraff ychwanegol yn ymarferol ar gyfer ailgylchu a chasglu, y tu hwnt i'r rhai a bennir yn Atodiadau 1-6 ac Atodlen 1A i'r Rheoliadau. Os yw hyn yn wir rydych yn cael eich annog i ailgylchu'r is-ffracsiynau hyn hefyd.

O dan y Rheoliadau, mae meddianwyr eiddo yn gyfrifol ac yn atebol am weithredoedd eu staff, h.y. byddai unrhyw gamau gorfodi gan y rheoleiddiwr yn erbyn y meddiannydd, nid yn erbyn staff unigol a gyflogir ganddo. Dylid hwyluso cydymffurfiaeth â'r gofynion gwahanu drwy ddarparu gwybodaeth glir i staff a darparu arwyddion clir yn yr eiddo sy'n esbonio i staff, ymwelwyr a chwsmeriaid yr hyn y dylid ac na ddylid ei roi yn y cynhwysyddion ffrwd wastraff ailgylchadwy ar wahân, yn unol â'r gofynion a nodwyd yn Atodiad 1-6 ac Atodlen 1A i'r Rheoliadau.

Gall y trefniadau rheoli gwastraff ar gyfer eich eiddo gael eu gwasanaethu gan gwmni rheoli cyfleusterau, a allai wasanaethu eiddo cyfagos hefyd. Dylech adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau gwastraff yn ddigonol i gyflawni eich cyfrifoldebau.

Efallai y bydd angen casgliadau ar gyfer gwastraff gweddilliol cymysg na ellir ei ailgylchu o hyd ond mae'n rhaid iddynt ategu gwasanaeth ailgylchu ar wahân fel rhan o ateb rheoli gwastraff integredig cyffredinol.

Gwastraff bwyd

Mae'n rhaid i unrhyw eiddo sy'n cynhyrchu 5kg a mwy o wastraff bwyd mewn unrhyw wythnos (fel cyfnod o saith diwrnod yn olynol) ei wahanu a'i gyflwyno i gael ei gasglu a'i ailgylchu ar wahân. Mae'r rhwymedigaeth hon nid yn unig yn berthnasol i fusnesau bwyd ond i holl feddianwyr eiddo annomestig. Mae hyn yn cynnwys pan fydd staff neu ymwelwyr yn dod â'u bwyd i eiddo a'i fwyta yno, ac mae 5kg a mwy yr wythnos yn cael ei gynhyrchu fel gwastraff bwyd.

Dylai meddianwyr eiddo sy'n penderfynu nad yw'r rhwymedigaeth hon yn berthnasol iddynt (ar y sail eu bod yn dod o dan y terfyn pwysau) adolygu hyn o bryd i'w gilydd yn enwedig pan fo newidiadau sylweddol ar eu heiddo e.e. cynnydd mewn lefelau staffio, cynnydd yn y defnydd o eiddo, a/neu gynnydd yn nifer yr ymwelwyr.

Mae gwastraff arlwyro rhyngwladol wedi'i ddynodi'n Sgil-gynnyrch Anifeiliaid Categori 1 ac felly mae angen rheolaeth arbenigol ohono. O'r herwydd, nid yw'n dod o fewn cwmpas y ddyletswydd hon.

Ar gyfer bwyd dros ben nad yw i gael ei werthu i gwsmeriaid, os yw'n dal yn ddiogel i'w fwyta gan bobl yna dylid cymryd cyfleoedd iddo gael ei ailddosbarthu i'r rhai mewn tlodi bwyd yn unol â'r arweiniad statudol ar yr hierarchaeth wastraff¹⁵. Dylid cyflwyno bwyd dros ben nad yw'n ddiogel i'w fwyta gan bobl i'w gasglu ar wahân fel gwastraff bwyd, yn unol â'r Rheoliadau.

Ar gyfer gwastraff bwyd yn ei becynnu na ellir ei ailddosbarthu, dylid gwahanu'r pecynnu oddi wrth y gwastraff bwyd, a dylid rhoi pob deunydd yn ei gynhwysydd ffrwd wastraff ailgylchadwy penodol ei hun yn unol â'r gofynion gwahanu.

Gellir cymysgu gwastraff bwyd â mathau eraill o wastraff bioddiraddadwy addas (er enghraifft llystyfiant sy'n deillio o gynnal a chadw tir, neu dail anifeiliaid) cyn belled â bod modd rheoli'r gwastraff bwyd mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion trin y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (gweler adran 7) ac sy'n hyrwyddo ailgylchu o ansawdd uchel drwy fodloni safon ansawdd PAS100 ar gyfer compostio a safon ansawdd PAS110 ar gyfer treulio anaerobig.

Ni ddylid cymysgu gwastraff bwyd â mathau eraill o wastraff bioddiraddadwy a fyddai'n tanseilio'r safonau ansawdd hyn fel gwastraff trefol cymysg neu slwtsh carthion.

Efallai y byddwch yn gallu compostio'ch gwastraff bwyd eich hun neu ei dreulio'n anaerobig ar eich eiddo ar yr amod eich bod yn bodloni gofynion y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ac unrhyw eithriadau perthnasol, a gofynion y Rheoliadau Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid.

Gofynion cyfreithiol eraill ar gyfer gwastraff bwyd

Mae adran 34D o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd yn golygu na ddylai meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru, o 1 Hydref 2023 ymlaen:

- (i) gwaredu gwastraff bwyd a gynhyrchir ar yr eiddo neu a gyflwynwyd i'r eiddo, neu
 - (ii) achosi'n fwriadol neu ganiatáu'n fwriadol i wastraff bwyd a gynhyrchir ar yr eiddo neu a gyflwynwyd i'r eiddo gael ei waredu,
- i garthffos gyhoeddus neu garthffos neu ddraen sy'n cysylltu â charthffos gyhoeddus.

Mae'r gwastraff bwyd na ddylid ei waredu i'r garthffos yn wastraff a reolir sydd:

- (i) ar unrhyw adeg wedi bod yn fwyd (nad yw'n cynnwys diod at y diben hwn) a fwriadwyd i'w fwyta gan bobl, neu
- (ii) yn wastraff bioddiraddadwy sy'n deillio o brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod,

¹⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/arweiniad-yngghylch-gweithredur-hierarchiaeth-gwastraff.pdf>

ond nad yw'n cynnwys gwastraff sydd wedi ei gymysgu â dŵr neu unrhyw hylif arall o ganlyniad bod y dŵr neu'r hylif wedi cael ei ddefnyddio i lanhau unrhyw fan neu offer a ddefnyddir wrth brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod.

Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio gwardwyr gwastraff bwyd (h.y. mwydwyr) neu fathau eraill o gyfarpar trin gwastraff bwyd (e.e. dad-ddyfrio) mewn eiddo annomestig i waredu gwastraff bwyd neu hylif sy'n deillio o wastraff bwyd i ddraen neu garthffos.

Bydd Gwasanaeth Hylendid Bwyd yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am reoleiddio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffos.

Cyngor ychwanegol

Efallai y byddwch am ofyn i'ch contractwr gwastraff ddarparu gwybodaeth i chi am gyrchfan olaf y deunyddiau y byddwch yn eu gwahanu i'w hailgylchu, a sut maent wedi cael eu hailgylchu, eu compostio neu eu paratoi i'w hailddefnyddio. Os ydych yn gorff sector cyhoeddus yng Nghymru gallai hyn eich helpu i gyfrifo rhai o'ch allyriadau carbon Cwmpas 3 mewn perthynas â chyrraedd eich targed sero net ar gyfer 2030. Bydd yr wybodaeth hon ar gyrchfan olaf eich gwastraff ar gael o dan y system olrhain gwastraff electronig orfodol sydd mewn golwg, unwaith y bydd yn ei lle.

Crynodeb o'r camau allweddol y'ch cynghorir i'w cymryd:

Fel meddiannydd eiddo annomestig, yn ogystal â chydymffurfio â gofynion gwahanu a rhwymedigaethau dyletswydd gofal y meddiannydd, mae'n rhesymol i chi wneud y canlynol ar eich eiddo:

• Cymryd camau i gynnal ansawdd y deunyddiau gwahanu penodedig a gyflwynir i'w casglu ar wahân, er mwyn hwyluso ailgylchu o ansawdd uchel. • Defnyddio contractwr gwastraff a fydd yn casglu un neu ragor o'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân fel y'u nodwyd. • Cynnal deialog dda gyda'ch contractwr gwastraff, fel eich bod chi ac unrhyw staff yn ymwybodol o'r isffracsiynau y gellir eu gwahanu i'w hailgylchu, a'r rhai y dylid eu rhoi yn y cynhwysydd gwastraff gweddilliol cymysg. • Darparu hyfforddiant i'ch staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth sydd angen ei wneud i fodloni'r gofynion gwahanu. • Sicrhau bod gwybodaeth dda ac arwyddion clir yn cael eu darparu i'r staff ac ymwelwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y deunyddiau gwastraff y dylid ac na ddylid eu gwahanu ar gyfer ailgylchu.

9. 1. Eich rhwymedigaethau fel rhywun sy'n casglu, derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff a reolir yng Nghymru

Y gofynion gwahanu

Fel y ddolen rhwng cynhyrchwyr gwastraff a'r sector ailbroseu, mae gennych rôl hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ailgylchu yn cael eu cynllunio a'u

gweithredu i greu gwastraff o ansawdd digonol i gefnogi'r canlyniadau ailgylchu o ansawdd uchel sy'n flaenoriaeth.

Mae dyletswydd ar y rhai sy'n casglu, neu'n trefnu i gasglu, un neu ragor o'r deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodedig ac is-ffracsiynau, i gydymffurfio â 'gofynion gwahanu'r casglwr'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gasglu, neu drefnu i gasglu, y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy penodedig ar wahân (h.y. ar wahân i unrhyw ffrwd wastraff ailgylchadwy arall) i fathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill. Gall hyn fod naill ai o fewn rhan hunangynhwysol ar wahân ar gerbyd aml-gompartment, neu mewn cerbydau ar wahân.

Mae'n rhaid i'r rhai sy'n casglu, derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff gydymffurfio â 'gofynion gwahanu'r triniwr'. Mae hyn yn golygu na ddylent gymysgu'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a gesglir ar wahân gydag unrhyw ffrwd wastraff ailgylchadwy arall neu gyda mathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â gofynion gwahanu'r triniwr gwastraff tra bod y gwastraff yn eich meddiant a phan fyddwch yn trosglwyddo eich gwastraff i rywun arall.

O 1 Hydref 2023 ymlaen, mae'n rhaid i chi gasglu'r deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodedig ar wahân yn y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a nodir yn adran 5, ond dim ond yr is-ffracsiynau deunydd a bennir yn Atodiadau 1-6 ac Atodlen 1A i'r Rheoliadau sydd angen eu casglu ar wahân yn y ffrydiau gwastraff a bennir. Gallwch eu casglu mewn mwy o ffrydiau os ydych yn dymuno gwneud hynny os yw hynny wedi ei gytuno gyda'r cynhyrchydd gwastraff. Efallai y byddwch yn eu gwahanu ymhellach, i fwy o ffrydiau, os ydych yn dymuno gwneud hynny. Dyletswydd casglwyr gwastraff yw casglu, derbyn, cadw, trin a / neu gludo'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy penodedig ar wahân i ffrydiau gwastraff eraill. Mae'n rhaid i'r gwaith trin dilynol fod yn ddigonol i'w cadw ar wahân drwy'r gadwyn reoli.

Nid oes angen i chi gasglu gwastraff bwyd ar wahân o eiddo sy'n cynhyrchu llai na 5kg yr wythnos (am unrhyw gyfnod o saith diwrnod yn olynol). Yn yr achos hwn, gellir ei gasglu yn y cynhwysydd gwastraff gweddilliol cymysg. Gallwch gynnig gwasanaeth casglu gwastraff bwyd i eiddo sy'n dod o dan y trothwy de minimis ond y meddiannydd fydd yn penderfynu a yw am fanteisio ar y cynnig.

Nid oes rhaid i chi gasglu'r amrywiaeth llawn o ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân. Efallai y byddwch am is-gontractio'r gwaith casglu ar wahân o rai ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân, neu efallai y bydd y meddiannydd yn dymuno cael contractau ar wahân gyda mwy nag un endid casglu gwastraff.

Dylai system ailgylchu sy'n cael ei gweithredu'n dda sicrhau cyfradd gasglu uchel gydag ychydig iawn, os o gwbl, o'r deunyddiau ailgylchadwy penodedig ar ôl yn y ffrwd weddilliol.

Gallwch barhau i ddarparu casgliadau gwastraff gweddilliol os oes eu hangen ar eich cwsmer ond ni ddylai'ch cwsmer roi unrhyw un o'r deunyddiau a nodir yn Atodiadau 1-6 ac Atodlen 1A i'r Rheoliadau yn y ffrwd gwastraff gweddilliol. Wrth gasglu gwastraff gweddilliol, efallai y bydd yn amlwg nad yw'r meddiannydd yn gwahanu'n

briodol y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy penodedig ar gyfer ailgylchu neu ei fod yn gwneud hynny'n wael iawn. Nid yw arfer o'r fath yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau a dylech gynghori'r meddiannydd yn ysgrifenedig o'i ddyletswydd o dan y gofyniad gwahanu ac awgrymu y dylai ofyn am gymorth pellach os oes angen. Os nad yw'r cwsmer yn cymryd camau prydlon i unioni problemau cydymffurfio, dylech wrthod casglu unrhyw gynwysyddion gwastraff nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion.

Nid oes raid i wastraff sy'n cael ei fewnforio i Gymru o genedl arall yn y DU sy'n bodloni'r gofynion gwahanu yn y cenhedloedd hynny gael ei ail-ddidoli wrth gyrraedd Cymru; ni ddylid cymysgu gwastraff o'r fath (ni waeth sut mae wedi'i wahanu).

Gwaharddiad ar gymysgu ffrydiau gwahanol ar ôl eu casglu

Fe'ch gwaharddir rhag cymysgu ffrydiau gwastraff ailgylchadwy sydd wedi'u gwahanu gyda'i gilydd, neu gyda mathau eraill o wastraff. Ond gallwch gymysgu papur a cherdyn gyda'i gilydd yn yr un cynhwysydd, a gallwch gymysgu metel, plastig a chartonau gyda'i gilydd yn yr un cynhwysydd (ond gwahanol).

Wrth reswm, caniateir cymysgu gwahanol ffynonellau o'r un deunyddiau neu ffrydiau sydd wedi'u gwahanu. Gallwch gymysgu gwastraff bwyd â gwastraff gardd hefyd, fodd bynnag, lle mae hyn yn digwydd bydd y Rheoliadau Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid yn berthnasol a bydd angen trin gwastraff o'r fath mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid, ac sy'n hyrwyddo ailgylchu o ansawdd uchel drwy fodloni safon ansawdd PAS100 ar gyfer compostio a safon ansawdd PAS110 ar gyfer treulio anaerobig.

Cyngor ychwanegol

Argymhellir eich bod yn darparu gwybodaeth i'r meddiannydd am gyrchfan derfynol y deunyddiau rydych yn eu casglu i'w hailgylchu, a sut maent wedi cael eu hailgylchu. Gallai hyn helpu cyrrff yn y sector cyhoeddus yn benodol i gyfrifo rhai o'u hallyriadau carbon Cwmpas 3 mewn perthynas â'u targed sero net erbyn 2030.

Fe'ch cynghorir i ystyried unrhyw effeithiau andwyol yn sgil cywasgu yn eich cerbydau unrhyw rai o'r eitemau sych a ailgylchir a gyflwynir ar wahân gan y gall gael effaith ar ansawdd yr ailgylchu. Gall cywasgu gael yr effeithiau canlynol:

- lleihau maint y gronynnau, gan arwain at ddeunydd mwy mân a allai fod yn anodd ei ddal i'w ailgylchu - gall hyn fod yn arbennig o broblemus o ran ailgylchu gwydr;
- eitemau'n cael eu cywasgu gyda'i gilydd i ffurfio eitemau deunydd aml-is-ffracsiwn sy'n anodd eu gwahanu.

Crynodeb o'r camau allweddol y'ch cynghorir i'w cymryd:

Yn ogystal â chydymffurfio â gofynion gwahanu'r triniwr gwastraff, mae'n rhesymol darparu'r canlynol i'ch cwsmer:

- Gwasanaeth casglu wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion eich cwsmer, gyda chasgliadau dibynadwy a rheolaidd.
- Gwybodaeth

am y mathau o ddeunyddiau ac is-ffracsiynau sy'n ffurfio pob ffrwd wastraff ailgylchadwy y gellir eu derbyn i'w hailgylchu ym mhob cynhwysydd. • Gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r gwasanaeth yn effeithiol (e.e. deunyddiau glân a sych) a'r camau yr argymhellir eu cymryd i osgoi halogi gan wastraff nad yw wedi'i dargedu a gwastraff na ellir ei ailgylchu. • Labeli clir ar gynhwysyddion ailgylchu i nodi pa ddeunydd y dylid ei gynnwys a'r hyn y dylid ei eithrio. • System o archwiliadau ar hap i asesu deunydd a gesglir am ddeunyddiau nad ydynt wedi'u targedu ac na ellir eu hailgylchu a rhoi adborth ar unrhyw broblemau a ddaeth i'r amlwg i'r meddiannydd gyda chyngor priodol. • Cyngor i gwsmeriaid os nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion gwahanu, ac os nad oes camau prydlon yn cael eu cymryd gan y cwsmer i unioni problemau cydymffurfio, byddwch yn gwrthod casglu unrhyw gynhwysyddion gwastraff nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion. • Gwybodaeth am sut bydd pob ffrwd wastraff ailgylchadwy yn cael ei rheoli, a sut y bydd yn cael ei hailgylchu.

10.2. Geirfa

Ailgylchu dolen agored: Ailgylchu dolen agored yw lle mae naill ai deunydd gwastraff i) yn disodli'r defnydd o fersiwn grai o ddeunydd gwahanol mewn cynnyrch newydd gwahanol neu ii) yn disodli'r defnydd o ddeunydd carbon corfforedig is a/neu le na ellir ailgylchu'r cynnyrch newydd ei hun ar ôl ei ddefnyddio, ac felly'n colli'r deunydd o'r gadwyn gyflenwi. Mae ailgylchu dolen agored yn aml yn gysylltiedig â dirywiad yn y deunydd sy'n cael ei ailgylchu. Cyfeirir at ailgylchu dolen agored fel isgylchu hefyd.

Ailgylchu dolen gaeedig - lle mae deunydd gwastraff: i) yn cael ei ailgylchu'n cynnyrch newydd sydd â swyddogaeth debyg, neu ii) yn cael ei ddefnyddio yn lle fersiwn grai o'r un deunydd mewn cynnyrch newydd gwahanol, neu iii) yn disodli deunydd crai carbon corfforedig uwch, a lle gall y cynnyrch newydd ei hun gael ei ddefnyddio, ei daflu a'i ddal, i'w ailgylchu eto, gan gylchu'r deunydd yn barhaus drwy'r gadwyn gyflenwi.

Mae enghreifftiau o ailgylchu dolen gaeedig o'r radd flaenaf yn cynnwys:

- i) defnyddio ysgyrion gwydr wedi'i ailgylchu mewn gwaith ail-doddi i greu cynhyrchion gwydr newydd yn hytrach na'u defnyddio fel agregau yn y diwydiant adeiladu;
- ii) defnyddio plastig wedi'i ailgylchu i gynhyrchu cynhwysyddion bwyd a diod newydd yn hytrach na chreu cynhyrchion adeiladu o bolymerau plastig cymysg na ellir eu hailgylchu'n ymarferol ar ddiwedd eu hoes;
- iii) defnyddio papur wedi'i ailgylchu i wneud cynhyrchion papur newydd yn hytrach na defnyddiau eraill fel sarn anifeiliaid.

Ailgylchu o ansawdd uchel - mae ailgylchu o ansawdd uchel yn mynnu, gydol y gadwyn casglu a phrosesu ailgylchu, bod nodweddion penodol y deunydd (er enghraifft y polymer, neu'r gwydr, neu'r ffibr papur neu'r metel) yn cael eu cadw neu eu hadfer er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i gael eu hail-ddefnyddio yn yr

economi gylchol mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau arbedion allyriadau carbon mwyaf posibl.

Allyriadau carbon 'Cwmpas 3' - Mae'r safon gorfforaethol protocol nwyon tŷ gwydr (GHG) byd-eang yn categoreiddio allyriadau GHG cwmni yn dri 'chwmpas'. Mae allyriadau Cwmpas 1 yn allyriadau uniongyrchol o ffynonellau sy'n eiddo i'r cwmni neu'n cael eu rheoli ganddo. Mae allyriadau Cwmpas 2 yn allyriadau anuniongyrchol o gynhyrchu ynni a brynir. Mae allyriadau Cwmpas 3 i gyd yn allyriadau anuniongyrchol (heb eu cynnwys yng Nghwmpas 2) sy'n digwydd yng nghadwyn gwerth y cwmni sy'n adrodd, gan gynnwys allyriadau i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi

Cartonau - Cartonau bwyd a diod sy'n cael eu defnyddio i becynnu diodydd fel llaeth, dewisiadau amgen llaeth, sudd ffrwythau ac ystod o gynhyrchion bwyd fel cawl, tomatos wedi'u torri a ffacbys. Mae cartonau bwyd a diod fel arfer yn cael eu gwneud o ffeibr coed (yr elfen fwyafrifol) ar ffurf bwrdd papur, polyethylen ac alwminiwm, mewn cyfrannau amrywiol.

Cyfarpar trydanol ac electronig (EEE) - offer sy'n ddibynnol ar gerrynt trydan neu feysydd electromagnetig er mwyn gweithio'n iawn ac offer ar gyfer cynhyrchu, trosglwyddo a mesur cerrynt a meysydd o'r fath ac sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio gyda sgôr foltedd heb fod yn fwy na 1,000 folt ar gyfer cerrynt eiledol a 1,500 folt ar gyfer cerrynt union.

Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) bach - Gweler 'EEE' ac Atodiad 6 am restr o eitemau EEE sy'n cael eu dosbarthu fel WEEE bach.

Cynhwysydd - mae cynhwysydd yn dal neu'n storio'r gwastraff o fewn rhwystr ffisegol sy'n ei atal rhag dianc o'r man lle mae'r cynhwysydd wedi'i leoli. Fel arfer, mae hefyd yn caniatáu i'r gwastraff gael ei gludo heb ollwng. Caiff cynhwysyddion gwastraff eu gwneud allan o blastig neu fetel fel arfer. Mae cynhwysyddion plastig yn cynnwys bocsys agored (gyda chaead neu heb gaead), biniau olwyn â chaead, biniau pedal, basgedi a bagiau plastig (y tu mewn i finiau ag ochrau cadarn fel arfer). Mae cynhwysyddion metel yn cynnwys biniau traddodiadol, biniau pedal, biniau olwyn a sgipiau.

Cynhyrchion heb eu gwerthu - cynnyrch defnyddwyr heb ei ddefnyddio, naill ai mewn ffatri neu safle manwerthu, cyfanwerthwr, warws neu unrhyw safle arall. Bydd y cynnyrch naill ai heb ei werthu neu wedi'i ddychwelyd gan y cwsmer.

Deunydd gwastraff (gweler hefyd 'is-ffracsiwn gwastraff') Diffinnir deunydd gwastraff yn fras gan y math o ddeunydd technegol y mae wedi ei wneud ohono - ee gwydr, metel, plastig, papur a gwastraff bwyd. Mewn rhai achosion gall deunydd gwastraff fod yn fath o gynnyrch - er enghraifft eitem o gyfarpar trydanol neu electronig neu decstilau. Mae pob un o'r deunyddiau hyn yn cynnwys is-ffracsiynau.

Ffrwd wastraff (gweler hefyd 'deunydd gwastraff' ac 'is-ffracsiwn gwastraff') - categori, neu gategoriâu, o ddeunyddiau gwastraff sy'n cael eu hystyried yn addas i'w casglu mewn un cynhwysydd. Felly gall fod un neu fwy o ddeunyddiau gwastraff mewn cynhwysydd ffrwd wastraff.

Gwahanu - Mae hyn yn golygu gwahanu un neu fwy o fathau o wastraff oddi wrth fathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill.

Gwastraff - unrhyw sylwedd neu wrthrych y mae'r meddiannydd yn ei daflu, yn bwriadu ei daflu neu mae'n ofynnol iddo ei daflu.

Gwastraff a reolir - diffinnir y term 'gwastraff a reolir' yn adran 75(4) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel gwastraff cartref, diwydiannol a masnachol neu unrhyw wastraff o'r fath.

Gwastraff arlwygo rhyngwladol (ICW) - gwastraff bwyd o gerbydau trafndiaeth rhyngwladol gan gynnwys:

- llongau mordaith
- cwmnïau hedfan
- iotiau a chychod preifat neu fasnachol
- llongau a llongau tanfor y lluoedd arfog
- fferis

Nid yw bwyd a diod o gerbydau o'r fath yn cael ei ystyried yn wastraff arlwygo rhyngwladol nes nad yw wedi'i fwriadu bellach i'w fwyta gan bobl neu ei fod wedi'i gymysgu â gwastraff bwyd. Er enghraifft, dim ond ar ôl cael ei daflu mae carton o laeth o gerbyd trafndiaeth rhyngwladol yn cael ei ystyried yn wastraff arlwygo rhyngwladol

Mae gwastraff arlwygo rhyngwladol yn sgil-gynnyrch anifail (ABP) categori 1 risg uchel (ABP).

Mae'r holl wastraff bwyd o awyrennau, cerbydau neu longau sy'n teithio'n rhyngwladol yn cael ei ystyried yn wastraff arlwygo rhyngwladol. Mae gwastraff bwyd o awyrennau, cerbydau neu longau yn cael ei gategoreiddio'n wastraff arlwygo domestig pan:

- maent yn gweithredu fewn y DU, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw
- maent yn teithio o Ogledd Iwerddon i Brydain

<https://www.gov.uk/guidance/handling-and-disposing-of-international-catering-waste>

Gwastraff bwyd - gwastraff sydd:

(a) ar unrhyw adeg wedi bod yn fwyd (ond nad yw'n cynnwys diod at y diben hwn) y bwriedir i bobl ei fwyta, neu

(b) yn wastraff bioddiddadwy sy'n deillio o brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod, ond nid yw'n cynnwys gwastraff sydd wedi ei gymysgu gyda dŵr neu unrhyw hylif arall yn sgil defnyddio'r dŵr neu'r hylif hwnnw i lanhau unrhyw le neu offer a ddefnyddir wrth brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod ¹⁶.

Mae gwastraff arlwygo rhyngwladol wedi'i eithrio o'r gofynion gwahanu.

Gwastraff diwydiannol –gwastraff o unrhyw un o'r adeiladau canlynol:

(a) unrhyw ffatri (o fewn ystyr Deddf Ffatrioedd 1961);

¹⁶ Adran 34D(5) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

- (b) unrhyw fangre a ddefnyddir at ddibenion darparu gwasanaethau trafndiaeth i'r cyhoedd ar dir, ar ddŵr neu yn yr awyr, neu mewn cysylltiad â hynny;
- (c) unrhyw fangre a ddefnyddir at ddibenion cyflenwi gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan i'r cyhoedd neu ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth, neu mewn cysylltiad â hynny;
- (d) unrhyw fangre a ddefnyddir at ddibenion darparu gwasanaethau post neu delegyfathrebu i'r cyhoedd, neu mewn cysylltiad â hynny;
- (e) unrhyw fwynglawdd neu chwarel neu unrhyw fangre a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth o fewn ystyr Deddf Amaethyddiaeth 1947; neu
- (f) gwastraff o waith adeiladu neu waith dymchwel, gan gynnwys gwaith paratoi

Mae hefyd yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

- i) gwastraff o safle a ddefnyddir ar gyfer bridio, lletya neu stablu anifeiliaid; a
- ii) gwastraff o weithdy neu fangre tebyg nad yw'n ffatri dim ond oherwydd:
 - (a) nad yw'r rhai sy'n gweithio yno yn weithwyr cyflogedig; neu
 - (b) nad yw'r gwaith sy'n cael ei gyflawni yno at ddibenion masnach neu elw

Am fanylion pellach gweler Adran 75 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Cymru a Lloegr) 2012¹⁷.

Gwastraff masnachol – gwastraff o safleoedd sy'n cael ei ddefnyddio naill ai'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion masnach neu fusnes neu at ddibenion chwaraeon, hamdden neu adloniant, ac eithrio (a) gwastraff cartref a (b) gwastraff diwydiannol.

Is-ffracsiwn / Is-ffracsiwn gwastraff (gweler hefyd 'deunydd gwastraff' a 'ffrwd wastraff') – mae is-ffracsiwn gwastraff yn cyfeirio at y mathau gwahanol o un deunydd gwastraff penodedig sy'n meddu ar nodweddion neu gyfansoddiad gwahanol sy'n dylanwadu ar eu gallu i gael ei ailgylchu. Er enghraifft, mae gwastraff 'plastig' yn cynnwys amrywiaeth mawr o is-ffracsiynau y gellir eu hailgylchu i wahanol raddau sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o bolymerau a gwahanol ffurfiau ffisegol yr eitem blastig. Gellir diffinio is-ffracsiynau plastig, er enghraifft, yn ôl naill ai'r math o bolymer, neu yn ôl y ffaith a ydynt yn ddeunydd pecynnu ai peidio neu a ydynt yn 'galed' neu'n hyblyg, neu drwy gyfuniad o ddau neu'r tri o'r disgrifyddion hyn. Mae'r Atodiadau yn rhestru is-ffracsiynau pob deunydd gwastraff.

Llygryddion Organig Parhaus (POPs) - Llygryddion Organig Parhaus (POPs) yw cemegau sydd â phriodweddau gwenwynig sy'n aros yn yr amgylchedd am gryn amser, yn cronni mewn cadwyni bwyd ac yn gallu niweidio iechyd pobl a'r amgylchedd. Os cânt eu rhyddhau, mae'r llygryddion hyn yn gallu symud ar draws ffiniau ymhell o'u tarddiad – trwy'r aer, dŵr a rhywogaethau mudol - ac maent hyd yn oed yn cronni mewn rhanbarthau lle nad ydynt erioed wedi eu defnyddio na'u cynhyrchu. Mae rhai yn cael eu galw'n 'gemegau am byth'.

Heblaw am ambell i eithriad prin, nid yw POPs ar y cyfan yn cael eu defnyddio mewn cynhyrchion newydd mwyach, ond maent i'w gweld mewn gwastraff o hyd. Os yw gwastraff o'r fath (fel WEEE, tecstilau) yn cael ei ailgylchu, gall POPs ailymddangos yn yr economi pan fydd y deunyddiau sy'n cael eu creu yn cael eu defnyddio mewn

¹⁷ <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/811/contents/made>

cynhyrchion newydd. Mae hyn yn fygythiad i iechyd, yn enwedig os ydynt yn gysylltiedig â chynhyrchion defnyddwyr.

Mwy nag Ailgylchu- cynllun Llywodraeth Cymru i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru, lle'r ydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau ac osgoi gwastraff. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. <https://llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu>

Olrhain gwastraff – mae prosiect olrhain gwastraff ar y cyd rhwng pedair cenedl y DU sy'n ceisio datblygu system olrhain gwastraff electronig o'r crud i'r bedd. Y bwriad yw gorfodi ei ddefnydd ar y rhan fwyaf o gynhyrchwyr a chlodwyr gwastraff.

Sach oroesi – sach wedi'i selio, o ddefnydd sy'n para'n dda, a ddefnyddir i wahanu ffrydiau deunyddiau gwahanol fel y gallant gael eu rhoi gyda deunyddiau gwastraff eraill yn yr un bin, a chael eu casglu a'u cludo gyda ffrydiau deunyddiau gwastraff eraill mewn cerbyd casglu i ganolfan didoli. Yna mae'r sachau goroesi yn cael eu tynnu yn ystod proses ddiidoli, fel y gellir gwahanu'r deunyddiau ynddynt yn hawdd. Maent fel arfer wedi'u gwneud o bolythen cryf neu bolypropylen.

Sanctsiynau sifil – Defnyddir sanctsiynau sifil gan reoleiddiwr yn hytrach na dwyn erlyniad troseddol yn erbyn busnesau, unigolion neu sefydliadau (mewn achosion addas) er mwyn lleihau'r costau gweinyddol a'r niwed i enw da cysylltiedig, lle gall cosb sifil gyflawni amcanion gorfodi yr un mor effeithiol. Mae'r sanctsiynau sifil yn gosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiol, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau adfer a hysbysiadau stop, ac ymgymeriadau gorfodi

Sefydliad neu ymgymerydd – yn cynnwys unrhyw sefydliad, unig fasnachwr, busnes, cwmni, awdurdod partneriaeth, cymdeithas, ymddiriedaeth, clwb neu elusen.

Sgil-gynhyrchion anifeiliaid – cwmpas eang, sy'n cynnwys pob cynnyrch anifeiliaid gan gynnwys cig, pysgod, llaeth ac wyau nad oes bwriad i bobl eu bwyta, gwastraff arlwygo a chynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid gan gynnwys crwyn, plu, gwllân, esgyrn, cyrn, a charnau. Gall sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 3 fod yn garcasau neu rannau o'r corff a basiwyd yn addas i bobl eu bwyta, mewn lladd-dy. Gweler: <https://www.gov.uk/guidance/animal-by-product-categories-site-approval-hygiene-and-disposal>

Targed sero net – i'r sector cyhoeddus yng Nghymru: Ym mis Hydref 2021, nododd Llywodraeth Cymru ei hail gyllideb garbon, Sero Net Cymru, a gadarnhaodd yr uchelgais o sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral ar y cyd erbyn 2030. Mae'r term 'sero net' yn golygu sicrhau cydbwysedd rhwng y carbon sy'n cael ei ollwng i'r atmosffer, a'r carbon sy'n cael ei dynnu ohono. Bydd y balans hwn – neu sero net – yn digwydd pan nad yw swm y carbon rydym yn ei ychwanegu at yr atmosffer yn fwy na'r swm sy'n cael ei dynnu o'r atmosffer.

Y llygrwr sy'n talu – mae egwyddor y llygrwr sy'n talu yn golygu y dylai cynhyrchydd y gwastraff a deiliad y gwastraff reoli'r gwastraff mewn ffordd sy'n sicrhau lefel uchel o ddiogelwch i'r amgylchedd ac iechyd pobl. Yn unol ag egwyddor y llygrwyr sy'n talu, bydd costau rheoli gwastraff yn cael eu hysgwyddo gan gynhyrchydd gwreiddiol y gwastraff neu gan ddeiliaid presennol neu flaenorol y gwastraff. Mae egwyddor y llygrwr sy'n talu yn ymestyn i gostau rheoli gwastraff yn

cael eu hysgwyddo'n rhannol neu'n gyfan gwbl gan gynhyrchydd y cynnyrch y daeth y gwastraff ohono a dosbarthwyr cynnyrch o'r fath o bosibl yn rhannu'r costau hyn.

DRAFFET

Atodiad 1 – Yr is-ffracsiynau papur a cherdyn y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd

Ar gyfer pob eiddo annomestig, mae'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi mewn cynhwysydd ar wahân ar gyfer papur a cherdyn, a'r rhai na ddylid eu rhoi ynddo (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu iddo gael ei gynnwys yn benodol) fel a ganlyn:

Papur a chardbord	
Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd	<u>DDIM</u> i'w roi yn y cynhwysydd (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu iddo gael ei gynnwys yn benodol)
Papur (glân, wedi'i argraffu/heb ei argraffu) Llyfrau clawr meddal Papurau newydd Cylchgronau Catalogau Amlenni Cyfeirlyfrau ffôn Pecynnu cardbord Bocsys wyau	Carpion papur (gellir ailgylchu'r rhain ar wahân) Papur neu gardbord wedi'u halogi â bwyd/olew/saim/paent etc Llyfrau clawr caled (rhowch nhw i gael eu hailddefnyddio os yw'n addas) Papur wal Papur lapio anrhegion Hancesi papur Tyweli papur Papur cegin Cardiau crafu Derbynebau til <u>Cartonau ac ati</u> Dylai'r canlynol i gyd gael eu rhoi yn y cynhwysydd plastig, metel a cartonau. <ul style="list-style-type: none"> • Cartonau bwyd a diod o gardbord wedi'i lamineiddio â phlastig neu fetel • Cynhwysyddion papur caled (e.e. tiwbiau "Pringles") • Cwpanau papur wedi'u lamineiddio

Os gall y casglwr gwastraff gasglu ar wahân ac ailgylchu unrhyw un o'r eitemau a nodwyd yn yr ail golofn, yna caniateir cynnwys y rhain naill ai mewn cynhwysydd ar wahân ychwanegol, neu yn y cynhwysydd papur a chardbord. Rhaid i gynhyrddydd y gwastraff gael a chadw tystiolaeth ysgrifenedig gan y casglwr gwastraff sy'n dweud bod modd cynnwys yr eitemau hyn yn y cynhwysydd ailgylchu, gan sicrhau y cyflawnir ailgylchu o ansawdd uchel. Dylid rhoi unrhyw is-ffracsiynau na ellir eu hailgylchu yn y cynhwysydd sbwriel gweddilliol.

Efallai na fydd unrhyw bapur a chardbord gwastraff sy'n cynnwys sylweddau peryglus yn addas i'w ailgylchu ac mae'n rhaid ei reoli'n briodol.

Atodiad 2 – Yr is-ffracsiynau plastig, metel a charton y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd

Ar gyfer pob eiddo annomestig, mae'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi mewn cynhwysydd ar wahân ar gyfer metel/ plastig/cartonau a'r rhai na ddylid eu rhoi ynddo (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu hynny'n benodol) fel a ganlyn:

Plastig, metel a chartonau (gan gynnwys pecynnu cyfansawdd ffeibr-plastig eraill o gyfansoddiad tebyg)	
Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd	DDIM i'w roi yn y cynhwysydd (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu iddo gael ei gynnwys yn benodol)
<p><u>Deunyddiau pacio plastig caled – dim ond y ffracsiynau a restrir isod</u> Poteli a chaeadau plastig glân (?) (e.e. llaeth, diod, saws, glanedydd, siampw, cemegau, olewau ayb) Cynwysyddion bwyd plastig glân caled (e.e. tybiau menyn/margarîn, potiau iogwrt, pecynnau ffrwythau a phecynnau bwyd a chig nad ydynt yn ddu) Cwpanau plastig tafladwy (wedi'u gwneud o blastig yn unig) Caeadau plastig o gwpanau diodydd</p> <p><u>Deunyddiau pacio metel – dim ond y ffracsiynau a restrir isod</u> Tuniau bwyd a diod glân (dur ac alwminiwm) Caniau aerosol metel (dur ac alwminiwm, gwag, dim paent na chemegau niweidiol) Ffoil alwminiwm glân (dim halogiad bwyd na chemegol) Pecynnau bwyd alwminiwm glân, Caeadau metel ar jariau Caeadau metel ar boteli Tiwbiau alwminiwm gwag (e.e. tiwbiau piwrî tomato)</p> <p><u>Cartonau a phecynnau cyfansawdd plastig ffeibr eraill o gyfansoddiad tebyg:</u> Cartonau wedi'u gwneud o ffeibr yn bennaf ond sy'n cynnwys haen denau o fetel (a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer diodydd meddal a llaeth) a gwddf a chap plastig. Cynwysyddion papur caled (e.e. tiwbiau Pringles) Cwpanau papur gyda leinin mewnol plastig (heb ei wneud o blastig bioddiraddadwy/sy'n compostio)</p>	<p><u>Plastig (gellir ailgylchu nifer o'r eitemau hyn ar wahân)</u> Pecynnau plastig du ar gyfer bwyd a chig Bagiau plastig (yn cynnwys bagiau siopa, bagiau bara a bagiau bwyd wedi'i rewi, bagiau compost, bagiau gwrtaith, bagiau bwydydd anifeiliaid) Bagiau swmp ar gyfer cludo tywod, graean, hadau, bwydydd anifeiliaid etc Ffilm blastig (gan gynnwys clingffilm, ffilm pecynnau bwyd a ffilm lapio paledi, deunydd tynlapio, deunydd lapio silwair, gorchudd cnydau) Papurau melysion a bisgedi Pecynnau creision / papur ffoil Cydau Sachets Deunydd pecynnu swigod Polystyren Plastig caled nad yw'n ddeunydd pacio (gan gynnwys teganau, hongwyr dillad, potiau planhigion) Pecyn plastig sy'n compostio, sy'n fioddiraddadwy neu'n oco-so-ddiraddadwy Podiau coffi plastig</p> <p><u>Metel (gellir ailgylchu nifer o'r eitemau hyn ar wahân)</u> Tuniau paent (plastig neu fetel gan gynnwys caniau paent aerosol) Cistiau nwy (ni ddylid rhoi'r rhain yn y gwastraff cyffredinol chwaith, oherwydd gallant achosi risg o ffrwydrad. Rhaid eu rheoli gan gontractwr wedi'i awdurdodi'n briodol). Sgrap metel o unrhyw fath Podiau coffi metel</p> <p><u>Deunyddiau pacio cyfansawdd plastig ffeibr eraill o gyfansoddiad tebyg i gartonau</u></p>

Os gall y casglwr gwastraff gasglu ar wahân ac ailgylchu unrhyw un o'r eitemau a nodwyd yn yr ail golofn, yna gellir eu rhoi naill ai mewn cynhwysydd ar wahân ychwanegol, neu yn y cynhwysydd plastig, metel a chartonau. Rhaid i gynhyrchydd y gwastraff gael a chadw tystiolaeth ysgrifenedig gan y casglwr gwastraff sy'n dweud bod modd cynnwys yr eitemau hyn yn y cynhwysydd ailgylchu, gan sicrhau y cyflawnir ailgylchu o ansawdd uchel. Dylid rhoi unrhyw is-ffrasiynau na ellir eu hailgylchu yn y cynhwysydd sbwriel gweddilliol.

Efallai na fydd cynhwysyddion plastig, metel neu garton sy'n cynnwys sylweddau peryglus yn addas i'w hailgylchu, a rhaid eu rheoli'n briodol.

DRAFT

Atodiad 3 – Yr is-ffracsiynau gwydr y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd

Ar gyfer pob eiddo annomestig, mae'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi yn y cynhwysydd ar wahân ar gyfer gwydr a'r rhai na ddylid eu rhoi ynddo (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu hynny) fel a ganlyn:

Gwydr	
<i>Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd</i>	<i>DDIM i'w roi yn y cynhwysydd (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu hynny)</i>
Jariau gwydr glân (pob lliw) Poteli gwydr glân (pob lliw)	Caeadau metel ar jariau (rhowch yn y cynhwysydd metelau/plastig/carton) Topiau metel poteli (rhowch yn y cynhwysydd metelau / plastig / carton) Gwydr ffenestri (math o gwarel ffenestr, gwydr ffrâm llun, gwydr sgrîn wynt car) Drychau Bylbiau golau Llestri (yn cynnwys cerameg a tsieina) Gwydrau yfed Llestri coginio gwydr a cherameg

Os gall y casglwr gwastraff gasglu ar wahân ac ailgylchu unrhyw un o'r eitemau a nodwyd (yn yr ail golofn, yna caniateir cynnwys y rhain naill ai mewn cynhwysydd ar wahân ychwanegol, neu yn y cynhwysydd gwydr). Rhaid i gynhyrhydd y gwastraff gael a chadw tystiolaeth ysgrifenedig gan y casglwr gwastraff sy'n dweud bod modd rhoi'r eitemau hyn yn y cynhwysydd ailgylchu, gan sicrhau y cyflawnir ailgylchu o ansawdd uchel. Dylid rhoi unrhyw is-ffracsiynau na ellir eu hailgylchu yn y cynhwysydd sbwriel gweddilliol.

Mae proses fecanyddol o falu gwydr cymysg yn fân yn y tarddle cyn casglu yn arwain at gyfran sylweddol o ronynnau mân sy'n rhy fach i'w didoli yn ôl lliw. Gall hyn arwain at golli mwy na 30% yn ôl pwysau o'r deunydd y gellid ei ddefnyddio yn y diwydiant mwyndoddi. O'r herwydd, dylid osgoi malu gwydr lliw cymysg cyn ei gasglu lle bo modd.

Efallai na fydd unrhyw wastraff gwydr sy'n cynnwys sylweddau peryglus yn addas i'w ailgylchu ac mae'n rhaid ei reoli'n briodol.

Atodiad 4 – Yr is-ffracsiynau gwastraff bwyd y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd

Ar gyfer pob eiddo annomestig, mae'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi yn y cynhwysydd ar wahân ar gyfer bwyd a'r rhai na ddylid eu rhoi ynddo (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu hynny) fel a ganlyn:

Bwyd	
<i>Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd</i>	<i>DDIM i'w roi yn y cynhwysydd (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu hynny)</i>
Holl eitemau gwastraff a fu'n fwyd (ond nid diod at y diben hwn) y bwriedir i bobl neu anifeiliaid ei fwyta Gwastraff bioddiraddadwy sy'n deillio o brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod.	Unrhyw ddeunyddiau pacio (os gellir ei ailgylchu, rhwch mewn cynhwysydd penodedig ar wahân) Eitemau (gan gynnwys pecynnu) sy'n fioddiraddadwy, yn compostio neu'n ocsoddiraddadwy. Esgyrn mawr Tyweli papur Olewau

Os gall y casglwr gwastraff gasglu ar wahân ac ailgylchu unrhyw un o'r eitemau a nodwyd yn yr ail golofn, yna byddan nhw'n cael eu rhoi naill ai mewn cynhwysydd ar wahân ychwanegol, neu yn y cynhwysydd bwyd. Rhaid i gynhyrddydd y gwastraff gael a chadw tystiolaeth ysgrifenedig gan y casglwr gwastraff sy'n dweud bod modd cynnwys yr eitemau hyn yn y cynhwysydd ailgylchu, gan sicrhau y cyflawnir ailgylchu o ansawdd uchel. Dylid rhoi unrhyw is-ffracsiynau na ellir eu hailgylchu yn y cynhwysydd sbwriel gweddilliol.

Atodiad 5 – Yr is-ffracsiynau tecstilau heb eu gwerthu y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd

Ar gyfer pob eiddo annomestig, mae'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi yn y cynhwysydd ar wahân ar gyfer tecstilau heb eu gwerthu a'r rhai na ddylid eu rhoi ynddo (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu hynny) fel a ganlyn:

Tecstilau heb eu gwerthu	
Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd	DDIM i'w roi yn y cynhwysydd (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu hynny)
Dillad Matresi Dodrefn meddal (ee llenni, llieiniau gwely a blancedi, duvets, gobenyddion, tywelion etc) Carpedi a theils carped Rygiau Is-haen carped Tecstilau hamdden (pebyll, tarpolinau etc)	Unrhyw beth arall nas cynhwysir yn y golofn ar y chwith.

Os gall y casglwr gwastraff gasglu ar wahân ac ailddefnyddio neu ailgylchu unrhyw un o'r eitemau a nodwyd yn yr ail golofn, yna caniateir cynnwys y rhain naill ai mewn cynhwysydd ar wahân ychwanegol, neu yn y cynhwysydd tecstilau heb eu gwerthu. Dylai cynhyrhydd y gwastraff gael a chadw tystiolaeth ysgrifenedig gan y casglwr gwastraff sy'n dweud bod modd rhoi'r eitemau hyn yn y cynhwysydd ailgylchu, gan sicrhau y cyflawnir ailgylchu o ansawdd uchel. Dylid rhoi unrhyw is-ffracsiynau na ellir eu hailgylchu yn y cynhwysydd sbwriel gweddilliol.

Ni ellir ailgylchu eitemau gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs) a rhaid eu dinistrio.

Efallai na fydd unrhyw decstilau gwastraff sy'n cynnwys sylweddau peryglus yn addas i'w hailgylchu a rhaid eu rheoli'n briodol.

Atodiad 6 – Yr is-ffracsiynau WEEE bach heb ei werthu y dylid eu gwahanu mewn un cynhwysydd

Ar gyfer pob eiddo annomestig, mae'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi yn y cynhwysydd ar wahân ar gyfer WEEE bach heb ei werthu a'r rhai na ddylid eu gosod ynddo (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu iddo gael ei gynnwys) fel a ganlyn:

WEEE bach heb ei werthu	
Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd	DDIM i'w roi yn y cynhwysydd (oni bai bod y casglwr gwastraff yn caniatáu hynny)
<p>Y rhestr ganlynol o wastraff offer/cyfarpar trydanol ac electronig sy'n dibynnu ar gerrynt trydan neu feysydd electromagnetig i weithio'n iawn a chyfarpar ar gyfer cynhyrchu, trosglwyddo a mesur cerrynt a meysydd o'r fath ac a gynlluniwyd i'w defnyddio gyda sgôr foltedd heb fod yn fwy na 1,000 folt ar gyfer cerrynt eiledol a 1,500 folt ar gyfer cerrynt union:</p> <p>1) CYFARPAR BACH (HEB UNRHYW OCHR ALLANOL YN MESUR MWY NA 50CM) GAN GYNNWYS, OND HEB FOD YN GYFYNGEDIG I: Offer cartref Cyfarpar defnyddwyr Unedau goleuo (bylbiau golau) Cyfarpar sy'n atgynhyrchu sain neu ddelweddau, offer cerddorol Tŵls trydanol ac electronig Teganau, offer hamdden a chwaraeon Dyfeisiau meddygol; Offerynnau monitro a rheoli Peiriannau dosbarthu awtomatig Offer ar gyfer cynhyrchu cerrynt trydan.</p> <p>2) OFFER TG A THELATHREBU BACH (HEB UNRHYW OCHR ALLANOL YN MESUR MWY NA 50CM)</p> <p>3) OFFER BACH Sugnwyr llwch Sgubwyr carpedi Peiriannau gwnïo</p>	Unrhyw beth sydd heb ei gynnwys yn y golofn ar y chwith.

Unedau goleuo
Microdon
Offer awyru
Haearn smwddio
Tostwyr
Cylyll trydan
Tegelli trydan
Clociau a watshis
Eillwyr trydan
Cloriannau
Offer gofal gwallt a'r corff
Cyfrifianellau
Setiau radio
Camerâu fideo
Recordwyr fideo
Offer Hi-fi
Offerynnau cerdd
Offer atgynhyrchu sain neu ddelweddau
Teganau trydanol ac electronig
Offer chwaraeon
Cyfrifiaduron ar gyfer beicio, deifio,
rhedeg, rhwyfo, etc
Synwryddion mwg
Rheoleiddwyr gwresogi
Thermostatau
Offer trydanol ac electronig bach
Dyfeisiau meddygol bach
Offerynnau monitro a rheoli bach
Offer bach sy'n darparu cynhyrchion yn
awtomatig
Offer bach gyda phaneli ffotofoltaidd
integredig

4) OFFER TG A THELEGYFATHREBU
BACH (HEB UNRHYW OCHR
ALLANOL YN MESUR MWY NA 50CM)
Ffonau symudol
Systemau llywio lloeren
Cyfrifianellau poced
Llwybryddion
Cyfrifiaduron personol
Argraffwyr
Teleffonau

Os gall y casglwr gwastraff gasglu ar wahân ac ailgylchu unrhyw un o'r eitemau a nodwyd yn yr ail golofn, yna caniateir cynnwys y rhain naill ai mewn cynhwysydd ar

wahân ychwanegol, neu yn y cynhwysydd WEEE bach heb ei werthu. Rhaid i gynhyrchydd y gwastraff gael a chadw tystiolaeth ysgrifenedig gan y casglwr gwastraff sy'n dweud bod modd cynnwys yr eitemau hyn yn y cynhwysydd ailgylchu, gan sicrhau y cyflawnir ailgylchu o ansawdd uchel. Dylid rhoi unrhyw is-ffracsiynau na ellir eu hailgylchu yn y cynhwysydd sbwriel gweddilliol.

Ni ellir ailgylchu eitemau gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs) a rhaid eu dinistrio.

Efallai na fydd unrhyw WEEE bach heb ei werthu sy'n cynnwys sylweddau peryglus yn addas i'w hailgylchu a rhaid ei reoli'n briodol.

DRAFT